

BOSANQUET (TEULU).

Y mae'r teulu yn tarddu o'r Huguenotiaid; daeth y cyntaf ohonynt i Loegr o Lunel, gerllaw Montpellier, yn 1685. Llwyddodd y teulu ym myd masnach a cheir hwynt wedi ymsefydlu yn Forest House y tu allan i Epping Forest. Dyddir y cysylltiad â gororau Cymru o'r adeg y prynwyd Dingestow Court, gerllaw Trefynwy, gan SAMUEL BOSANQUET (1744 - 1806), llywodraethwr y Bank of England.

Gwnaeth ei fab, yntau hefyd yn SAMUEL (1768 - 1843), y tŷ hwn yn brif gartref iddo'i hun (yr oedd yn siryf sir Fynwy yn 1814), a rhoes ei wyr, SAMUEL RICHARD BOSANQUET (1800 - 1882), oes hir i wasanaeth y sir, gan ddyfod yn gadeirydd y sesiwn chwarter. Yn y cyfamser cadarnhawyd y ddolen gydiol â Chymru pan brynwyd llawysgrifau Cymraeg gwerthfawr, yn eu plith fersiwn Gymraeg gynnar o 'Historia ' **Sieffre o Fynwy**, a olygwyd yn 1942 gan **Henry Lewis** o dan y teitl *Brut Dingestow*. Ffurfiad y casgliad llawysgrifau ar y cyntaf gan Syr JOHN BERNARD BOSANQUET (1773 - 1847), barnwr a gŵr llên, ond daeth i feddiant ei nai; fe'i prynwyd yn 1916 gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Un o feibion S. R. Bosanquet (1800 - 1882) ydoedd Syr FREDERICK ALBERT BOSANQUET (1837 - 1923), barnwr yn y Central Criminal Court o 1917. Yr oedd aelod o gangen o'r teulu a oedd yn byw yn Northumbria (yn Rock, gerllaw Alnwick), sef ROBERT CARR BOSANQUET (1871 - 1925), yn archaeolegwr enwog. Oherwydd hyn fe'i dewiswyd yn 1908 yn aelod o'r Royal Commission on Ancient Monuments in Wales; gwasanaethodd ar y comisiwn hyd ei farw, ac ysgrifennodd ar leoedd Rhufeinig i'r gwahanol adroddiadau a gyhoeddwyd gan y comisiwn.

Awdur

Syr **John Edward Lloyd**, (1861 - 1947)

Ffynonellau

Archifau LIGC: **NLW MS 5261-75: Dingestow Court manuscripts**

Oxford Dictionary of National Biography, 1922-1930

Bradney, *A History of Monmouthshire*, ii, 50-70

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q20732668**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Yrannu

Arddull APA

x

Lloyd, J. E., (1953). BOSANQUET (TEULU).. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BOSA-NQU-1685>

Yrannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government